# PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

# DATGANIAD CYFRIFON

# AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN
# 31 MAWRTH 2021

**CHRIS MOORE FCCA**
**CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**
**NEUADD Y SIR**
**CAERFYRDDIN**
**SA31 1JP**

# Cynnwys


1. Adroddiad Naratif — Tudalen 1
2. Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon — Tudalen 4
3. Datganiad Llywodraethu Blynyddol — Tudalen 5
4. Datganiadau Ariannol — Tudalen 13
    - Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)
    - Mantolen
    - Datganiad Llif Arian
5. Nodiadau ar y cyfrifon — Tudalen 14
6. Rhestr Termau — Tudalen 18

# 1 ADRODDIAD NARATIF

Mae’r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion ariannol Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 a’i sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2021.

## 1.1 Trosolwg

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn 2017, ac mae'n drefniant cydweithredol rhwng yr wyth o gronfeydd Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol sy'n weithredol drwy Gymru gyfan, gyda Chyngor Sir Gâr fel Awdurdod Cynnal. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn un o'r wyth cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol genedlaethol.

Amlinellir amcanion a chredoau'r Bartneriaeth isod:

Amcanion

- Darparu trefniadau cyfuno sy'n galluogi'r cronfeydd unigol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (lle bo hynny'n ymarferol).
- Cyflawni arbedion cost go iawn i'r cronfeydd sy'n rhan o'r Bartneriaeth, gan wella neu gynnal perfformiad ein buddsoddiadau ar ôl ffioedd.
- Sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn er mwyn goruchwylio gweithgareddau'r Gronfa Gyfun.
- Gweithio'n agos gyda chronfeydd cyfun eraill er mwyn ymchwilio i'r buddion y gallai'r holl randdeiliaid yng Nghymru eu hennill o ddulliau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib.
- Darparu fframwaith buddsoddiadau sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i randdeiliaid allweddol y Bartneriaeth, sef yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i gyflawni'r canlyniadau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynlluniau.

Credoau

- Swyddogaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru yw hwyluso a darparu platfform cyd-fuddsoddi sy'n gweithredu er budd yr Awdurdodau Cyfansoddol.
- Dylai llywodraethu da arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cydweithio mewnol rhwng yr Awdurdod Cynnal a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Bartneriaeth. Gallai cydweithio allanol fod yn fuddiol hefyd wrth ddarparu arbedion cost a gwell canlyniadau i randdeiliaid.
- Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau effeithiol i leddfu Risg Hinsawdd, ynghyd ag ystyried materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a'u rheoli ar sail tystiolaeth, arwain at well canlyniadau i randdeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Bartneriaeth.
- Gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd gost-effeithiol o wella adnoddau'r Bartneriaeth, ei galluoedd a'i harbenigedd.
- Bydd tryloywder o ran ffioedd a chostau yn cynorthwyo gyda phenderfyniadau ac yn gwella'r canlyniadau i randdeiliaid.
- Bydd dysgu, arloesi a datblygu parhaus yn cynorthwyo'r Bartneriaeth a'i Hawdurdodau Cyfansoddol i esblygu.

- Bydd ymagwedd hyblyg i strwythur cyd-fuddsoddi a dulliau gweithredu'r Bartneriaeth yn galluogi cronfa cyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth i addasu yn y dyfodol, a dal i fodloni gofynion ei randdeiliaid.

Cynhwysir manylion Strwythur Llywodraethu'r Bartneriaeth yn Adran 3 - Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## 1.2 Cyfrifon

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2020/21 ac yn cynnwys y Datganiadau Ariannol a ganlyn:

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)**
Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

**Y Fantolen**
Mae hon yn dangos asedau a rhwymedigaethau'r Bartneriaeth fel ar 31 Mawrth 2021.

**Y Datganiad Llif Arian**
Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sydd gyfwerth gan y Bartneriaeth yn ystod y cyfnod adrodd.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu (Nodyn 6.1 - Nodiadau ar y Cyfrifon).

## 1.3 Cyllideb

Mae'r tabl isod yn dangos gwir wariant y Bartneriaeth yn ystod 2020/21 o'i gymharu â'r gyllideb gymeradwy am y flwyddyn, yn manylu ar unrhyw amrywiannau. Cymeradwywyd y Gyllideb gan y Cydbwyllgor Llywodraethu yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu ar 12 Mawrth 2020 ac wedi hynny gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol

| **Partneriaeth Pensiwn Cymru 2020/21** | **Nodyn** | **Cyllideb £** | **Gwir £** | **Amrywiant £** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | | | | |
| Costau staff | 1 | 80,000 | 59,454 | 20,546 |
| Costau Awdurdod Cynnal | 2 | 23,874 | 13,556 | 10,318 |
| Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Cynnal | 3 | 77,063 | 77,063 | 0 |
| **Cyfanswm Awdurdod Cynnal Gwariant Gros** | 4 | **180,937** | **150,073** | **30,864** |
| Ymgynghorwyr Allanol | 5 | 580,000 | 556,177 | 23,823 |
| **Cyfanswm Gwariant Gros** | | **760,937** | **706,250** | **54,687** |

Nodiadau:

1. Mae hyn yn cynnwys staff a gyflogwyd i weithio ar y Bartneriaeth yn unig. Mae'r Gyllideb yn cynnwys Uwch Swyddog Gwasanaethau Ariannol (1*fte*) a Chyfrifydd Cynorthwyol (1*fte* am 6 mis)
2. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau teithio, costau cynhaliaeth a chyfarfodydd, gweinyddiaeth, deunydd swyddfa a nwyddau treuliadwy gweithredol, gwefan (costau datblygu a pharhaus), ffioedd archwilio a gwasanaethau cyfieithu.
3. Taliadau canolog a ail-godir gan yr Awdurdod Cynnal yw'r rhain ac maent yn cynnwys costau a ddosberthir ar gyfer y Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro, Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a hefyd Eiddo a gwasanaethau cefnogi AD.
4. Ariennir cyfanswm gwariant yr Awdurdod Cynnal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.
5. Mae Ymgynghorwyr Allanol yn cynnwys Ymgynghorwyr Buddsoddi a Chyfreithiol, mae'r costau hyn hefyd yn cael eu hariannu gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn

Roedd yna danwariant o £55m am y flwyddyn, a oedd yn bennaf oherwydd:

- Costau staff - Cyfrifydd Cynorthwyol heb ei benodi
- Costau Awdurdod Cynnal - Dim costau teithio, hyfforddi na chynhaliaeth oherwydd COVID-19
- Ymgynghorwyr Allanol – Nid yw gwasanaethau pleidleisio wedi bod ar waith am y flwyddyn lawn gan arwain at gostau rhan-flwyddyn yn unig

## 1.4 <u>Gwybodaeth Bellach</u>

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'r cyfrifon ar gael gan y Rheolwr Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP.

.

## 2 DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

### Cyfrifoldebau'r Cydbwyllgor Llywodraethu

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Llywodraethu:

- Wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Y swyddog hwnnw yw Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol o fewn Cyngor Sir Gâr (yr Awdurdod Cynnal).
- Rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau.

### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn unol â'r arferion cyfrifyddu priodol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus;
- Cydymffurfio gyda'r Cod;
- Cadw cofnodion cyfrifyddu priodol ac amserol a oedd yn gyfredol;
- Cymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac afreoleidd-dra arall.

### Ardystio Cyfrifon

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon ar dudalen 14 i 18 yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Partneriaeth Pensiwn Cymru fel ar 31 Mawrth 2021 a'i hincwm a'i gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

.

Chris Moore FCCA Dyddiedig: 28 Mehefin 2021

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

## 3 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

### 3.1 Sgôp Cyfrifoldeb

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn gyfrifol am sicrhau bod ei busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Rhaid sicrhau hefyd fod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio'n economaidd, effeithlon ac effeithiol ac i sicrhau gwelliant a darpariaeth barhaus yn hyn o beth.

Mae'r Bartneriaeth yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle i Lywodraethu ei faterion ac i hwyluso arfer ei swyddogaethau'n effeithiol sy'n cynnwys cael trefniadau priodol i reoli risg.

Mae'r Bartneriaeth yn manylu ar sut mae'n ymdrin â phob agwedd o Lywodraethu drwy ei Gytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA) sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Haelodau, Pwyllgorau a'i Swyddogion. Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau sy'n ystyried y ddeddfwriaeth bresennol berthnasol.

### 3.2 Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau, prosesau, diwylliannau a'r credoau sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Bartneriaeth. Mae'n galluogi i'r Bartneriaeth fonitro cyrhaeddiad ei hamcanion strategol ac i ystyried p'un a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarpariaeth o wasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae'r system o Reolaeth Fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac wedi'i dylunio i reoli risg i lefel resymol. Ei nod yw adnabod a blaenoriaethu'r risgiau allai rwystro gallu'r Bartneriaeth i gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion. Mae'n gwerthuso tebygolrwydd ac effaith gwireddu'r risg ac yn rheoli risgiau unigol yn briodol.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn cydnabod polisïau a phrosesau sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / SOLACE - ***'Delivering Good Governance in Local Government***' (Nodiadau Canllaw ar gyfer Awdurdodau Cymreig Fersiwn 2016 - Cyhoeddwyd ym mis Medi 2016). Mae'r fframwaith hwn yn adnabod saith o brif egwyddorion llywodraethu da sy'n cyd-fynd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut mae'r Bartneriaeth wedi cydymffurfio ag amryw elfennau o'r Fframwaith Llywodraethu.

### 3.3 Yr Amgylchedd Llywodraethu


Mae'r fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor sylfaenol a weithredir er mwyn ategu safonau uchel o hyder ac ymddiriedaeth yn y modd mae'r bartneriaeth yn cael ei llywodraethu a'i gweithredu. Gwneir hynny wrth gynnal ymrwymiad i welliant parhaus ar sail gyson drwy broses o werthuso ac adolygu.

Mae Fframwaith Llywodraethu CIPFA/SOLACE yn amlinellu saith egwyddor sylfaenol Llywodraethu Corfforaethol. Dyma 'Saith CIPFA':

1. Uniondeb a Gwerthoedd - Ymddwyn gydag uniondeb, yn dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r gyfraith.
2. Didwylledd ac ymgysylltu - Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid.
3. Gwneud gwahaniaeth - Diffinio deilliannau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.
4. Gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd - Pennu'r ymyraethau sydd eu hangen er mwyn gwneud y gorau wrth gyflawni'r deilliannau bwriadedig.
5. Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi - Datblygu capasiti a gallu arweinyddiaeth ac unigolion.
6. Rheoli risgiau, perfformiad a chyllid - Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
7. Tryloywder ac atebolrwydd da - Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn cyflawni atebolrwydd effeithiol.

## 3.4 Y Strwythur Llywodraethu

Mae'r diagram isod yn dangos y strwythur llywodraethu a sefydlwyd gan y Bartneriaeth




### 3.4.1 Awdurdodau Cyfansoddol

Dyma Awdurdod Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint

- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen

Dyma Awdurdodau Cyfansoddol yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru, sy'n ffurfio Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cyngor Sir Gâr yw'r Awdurdod Cynnal.

Er bod Cydbwyllgor Llywodraethu wedi cael ei sefydlu i wneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau ar ran y Bartneriaeth, mae nifer o faterion / penderfyniadau wedi'u cadw yn ôl ac mae'n rhaid eu trafod gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol am gymeradwyaeth, manylir arnynt yn Atodlen 2 y Cytundeb Rhwng Awdurdodu.

### 3.4.2 Cydbwyllgor Llywodraethu

Cafodd Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru ei ffurfioli ym mis Mehefin 2017 ac maent wedi cyfarfod yn aml ers hynny. Mae'r CBLl yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac mae pob cyfarfod yn cael ei we ddarlledu i'r cyhoedd. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn sicrhau cyfarfodydd agored a thryloyw ac yn cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion a gwe ddarllediadau, lle bo'n briodol.

Mae'r CBLl yn cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Rhaid i'r aelod etholedig fod yn aelod o'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw ac yn aelod o Bwyllgor Pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw. Bydd y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd yn cylchdroi bob blwyddyn. Y cadeirydd presennol yw'r Cynghorydd Glyn Caron – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)) a'r is-gadeirydd presennol yw'r Cynghorydd Clive Lloyd - Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe).

Mae'r CBLl yn gyfrifol am oruchwylio'r dasg o gyfuno buddsoddiadau'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Amlinellir y casgliad llawn o gyfrifoldebau'r CBLl yn Atodlen 3 (Materion CBLl) ac Atodlen 4 (Cylch Gorchwyl y CBLl) y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

### 3.4.3 Gweithgor Swyddogion

Mae Gweithgor Swyddogion (GS) Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cael ei sefydlu er diben darparu cefnogaeth a chyngor i'r Cydbwyllgor Llywodraethu. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob dau / dri mis gyda chyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal yn ôl yr angen.

Mae'r GS yn cynnwys ymarferwyr a swyddogion Adran 151 o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Cadeirydd y GC yw Chris Moore, Swyddog Adran 151 o Gyngor Sir Gâr (Awdurdod Cynnal). Amlinellir cylch gwaith y GS yn Atodlen 8 y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

### 3.4.4 Awdurdod Cynnal

Mae Cyngor Sir Gâr wedi cael ei benodi'n Awdurdod Cynnal ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn darparu’r gefnogaeth weinyddol a'r gefnogaeth ysgrifenyddol i'r CBLl ac yn cysylltu o ddydd i ddydd gyda'r gweithredwr ar ran yr holl gronfeydd CPLlL yng Nghymru. Amlinellir rôl yr Awdurdod Cynnal yn Adran 6 y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

Swyddog Monitro

Mae'r Swyddog Monitro (Pennaeth Gweinyddiaeth a Chyfraith) yn gyfrifol am gynnal y Cytundeb Rhwng Awdurdodau i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol cyfredol ac anghenion Llywodraethu'r Bartneriaeth ac mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r darpariaethau ar bob lefel. Mae'r Swyddog Monitro yn mynychu pob cyfarfod CBLl.

Mae'r Swyddog Monitro mewn sefyllfa dda i chwarae rôl ragweithiol yn cefnogi Aelodau a Swyddogion mewn gosodiadau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith a chyda gweithdrefnau'r Bartneriaeth ei hun. Fel y Pennaeth Gwasanaeth gyda chyfrifoldeb am yr Uned Wasanaethau Democrataidd yn y pen draw, mae'r Swyddog Monitro hefyd yn gyfrifol am gofnodi a chyhoeddi'r broses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau yn ffurfiol.

Mae'r Swyddog Monitro yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Adran 151 yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a bydd yn adrodd i'r Cydbwyllgor Llywodraethu os yw'n ystyried y bydd unrhyw gynnig yn arwain at anghyfreithlondeb.

Swyddog Adran 151

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth materion y Bartneriaeth dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a gydag ef/hi y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am weinyddiaeth ariannol y Bartneriaeth.

Cyhoeddwyd "Datganiad ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol" yn flaenorol gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae'r Datganiad yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Ariannol (PSA) ac yn amlinellu'r pum Prif Egwyddor (gweler isod) sy'n diffinio'r gweithgareddau a'r ymddygiadau craidd sy'n perthyn i rôl y PSA mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a'r trefniadau cyfundrefnol sydd eu hangen i'w cefnogi. Drwy benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, mae Cyngor Sir Gâr yn cydymffurfio'n llawn â'r Datganiad.

- Egwyddor 1 - Mae PSA mewn Awdurdod Lleol yn aelod allweddol o'r Tîm Arweinyddiaeth, yn ei gynorthwyo i ddatblygu a gweithredu strategaeth ac i ariannu a chyflawni amcanion strategol yr Awdurdod yn gynaliadwy ac er budd y cyhoedd.
- Egwyddor 2 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol fod â rhan weithredol yn yr holl benderfyniadau busnes pwysig, a gallu dylanwadu arnynt, er mwyn sicrhau bod goblygiadau, cyfleoedd a risgiau uniongyrchol a hirdymor yn cael eu hystyried yn llawn, ac yn cyd-fynd â strategaeth ariannol gyffredinol yr Awdurdod.
- Egwyddor 3 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol arwain hyrwyddiad a darpariaeth rheolaeth ariannol da gan yr Awdurdod cyfan fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu bob amser ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol.
- Egwyddor 4 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol arwain a chyfarwyddo swyddogaeth gyllidol sydd angen ei hariannu er mwyn bod yn addas at y diben.
- Egwyddor 5 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol fod â chymhwyster proffesiynol a meddu ar brofiad addas.

#### 3.4.5 *Link Fund Solutions*

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi dylunio model gweithredu sy'n hyblyg ac yn gallu cyflawni gwerth am arian. Mae *Link Fund Solutions Ltd* (*Link*) wedi cael ei benodi fel y Gweithredwr allanol a, gyda chymorth *Russell Investments*, mae'n darparu rheolaeth effeithiol dros fuddsoddiadau ac yn rhoi sicrwydd o ran perfformiad ffioedd i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae Cytundeb Gweithredwr yn ei le gyda *Link Fund Solutions* sy'n amlinellu dyletswyddau cytundebol y Gweithredwr ac yn rheoli'r berthynas rhwng y Gweithredwr a'r Bartneriaeth.

#### 3.4.6 Ymgynghorwyr Allanol

Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Ymgynghorwyr Allanol i ddarparu cefnogaeth a chyngor ychwanegol. Mae pob contract yn mynd drwy broses caffael ffurfiol yn unol â Chanllawiau Caffael Cyngor Sir Gâr.

<u>Ymgynghorwyr Cyfreithiol - *Burges Salmon*</u>

Mae *Burges Salmon* yn darparu cyngor Cyfreithiol, yn ôl yr angen.

<u>Ymgynghorwyr Trosolwg - *Hymans Robertson*</u>

Mae *Hymans Robertson* wedi cael eu penodi'n Ymgynghorwyr Trosolwg ar gyfer y Bartneriaeth. Mae rôl *Hymans Robertson* yn rhychwantu trosolwg a chyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddiad strategol a chefnogaeth rheoli prosiect. Maent yn mynychu holl gyfarfodydd y GS a'r CBLl.

<u>Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu - *Robeco Ltd*</u>

Mae *Robeco* wedi cael eu penodi'n darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru a byddant yn cynorthwyo'r Bartneriaeth i lunio a chynnal Polisi Pleidleisio ac Egwyddorion Ymgysylltu sy'n cyd-fynd ag aelodaeth Awdurdodau Cyfansoddol Cymreig o Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdod Lleol ('LAPFF'). Bydd *Robeco* hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio ecwiti gweithredol £5bn y Bartneriaeth ac yn adrodd i'r Bartneriaeth a'r Cronfeydd sylfaenol.

### 3.5 <u>Ffynonellau Sicrwydd Llywodraethu</u>

#### 3.5.1 Archwiliad Mewnol

Mae'r tîm Archwilio Mewnol yng Nghyngor Sir Gâr yn cynnal adolygiadau Archwilio Mewnol mewn sawl maes o fewn yr Awdurdod, yn adolygu effeithiolrwydd y systemau a'r trefniadau llywodraethu. Mae'n ofynnol i Archwilio Mewnol ymgymryd â'u gwaith yn unol â'r safonau a amlinellir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a sefydlwyd yn 2013, sef y safonau proffesiynol y cytunwyd arnynt ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol.

#### 3.5.2 Matrics Llywodraethu

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi datblygu Matrics Llywodraethu sy'n canolbwyntio ar amlinellu'r gwahanol rolau y mae cyrff o fewn y Bartneriaeth yn eu chwarae ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Bartneriaeth. Mae hefyd yn mynegi bod y Bartneriaeth yn ymgynghori / chwilio am fewnbwn gan nifer o wahanol gyrff o fewn y Bartneriaeth cyn ffurfioli penderfyniadau. Mae'r

broses hon yn amlygu'r nifer o wiriadau a'r dulliau pwyso a mesur y mae'r Bartneriaeth wedi'u datblygu yn ei phroses wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod llywodraethu da yn cael ei gyflawni.

### 3.5.3 Protocol Ymgysylltu

Mae'r Bartneriaeth yn credu mewn ymgysylltu rheolaidd gyda'i rhanddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu Fframwaith Protocol Ymgysylltu sy'n pennu'r dulliau ymgysylltu a ganlyn:

- Cyfarfodydd Adolygu'r Berthynas Strategol - Bob hanner blwyddyn
- Ymgysylltu â'r CBLl - Chwarterol
- Ymgysylltu â'r GS - Bob deufis
- Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn – Bob chwe mis
- Diwrnod Blynyddol i Randdeiliaid - Blynyddol
- Pwyllgorau'r Gronfa Bensiwn - Blynyddol
- Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr - Bob hanner blwyddyn
- Cyfathrebu ag Aelodau - Blynyddol
- Ymgysylltu drwy'r wefan a *LinkedIn* - parhaus

Yn ogystal ag ymgysylltu rheolaidd rhwng Swyddogion, Aelodau a Phartïon Allanol, fel y manylir ar ddiagram y Strwythur Llywodraethu, mae'r ymgysylltu hwn hefyd yn cynnwys ymgysylltu rhwng Aelodau Pwyllgorau Pensiwn, Aelodau Byrddau Pensiwn a Rheolwyr Cronfeydd Buddsoddi, rhai presennol a rhai posib.

### 3.5.4 Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn deall pwysigrwydd Buddsoddi Cyfrifol ac wedi datblygu Polisi Buddsoddi Cyfrifol cyffredinol ar gyfer y Bartneriaeth. Datblygwyd y polisi hwn mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol ac mae'n ymdrin â'r prif feysydd isod:

- Cyflwyniad a Throsolwg
- Uchelgais a Chredoau
- Y Strategaeth Fuddsoddi
- Newid Hinsawdd
- Eithriadau
- Gweithredu'r Strategaeth
- Stiwardiaeth - Pleidleisio, Benthyca Stoc ac Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid
- Cydweithio
- Monitro, Adrodd a Mesur

### 3.5.5 Hyfforddiant

Mae'n rhaid i staff y Bartneriaeth feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth briodol o:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol;
- cyfuno Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru; a
- cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu cynllun hyfforddiant sydd wedi'i ddylunio i ychwanegu at gynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion

hyfforddiant ar lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth ynghylch cyfuno cronfeydd.

Mae'r Awdurdod Cynnal yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol a fydd yn ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Cedwir cofnod dan y cynllun hyfforddiant a fydd yn cynnwys manylion cyfredol o'r holl hyfforddiant sydd wedi'i gwblhau, a'r hyfforddiant y bwriedir ei gynnal yn y dyfodol agos.

Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant yn canolbwyntio ar gwrdd ag anghenion hyfforddiant aelodau'r GS a'r CBLl; fodd bynnag, anogir Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Aelodau eu Pwyllgor Pensiynau, yn ogystal â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os ydynt yn credu y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hyn.

### 3.5.6 Cyfathrebu

Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru o'r farn bod cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol yn hanfodol os ydyw am lwyddo i gyflawni ei amcanion. Mae'r Bartneriaeth wedi datblygu polisi cyfathrebu sydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae’r polisi yn amlinellu'r hyn a ganlyn mewn perthynas â'r Bartneriaeth:

- Cynulleidfa Darged
- Prif Negeseuon / Prif Ddiben
- Dull Cyfathrebu
- Cyfrifoldebau
- Y Broses Adolygu a Myfyrio

Mae gan y Bartneriaeth wefan a thudalen *LinkedIn* hefyd sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r wefan (www.partneriaethpensiwncymru.org) yn ymdrin â sawl maes, gan gynnwys Llywodraethu, Cyhoeddiadau (yn cynnwys Polisïau'r Bartneriaeth) datblygiadau'r Is-gronfeydd a Newyddion (yn cynnwys datganiadau i'r wasg).

### 3.5.7 Rheoli Risg

Mae rheoli risg wedi cael ei ymblannu drwy'r elfen o lywodraethu'r Bartneriaeth. Ystyrir risgiau yn holl weithgareddau'r Bartneriaeth, yn enwedig wrth benderfynu ar ddatblygiad a strwythur is-gronfeydd. Mae Polisi Risg wedi'i lunio sy'n amlinellu sut mae'r PPC yn nodi, yn rheoli ac yn monitro risgiau. Yn ogystal, mae Cofrestr Risg wedi'i datblygu i fonitro a rheoli risgiau posibl sy'n cael eu cynnal a'u gwerthuso gan Is-grŵp Risg pwrpasol bob chwarter.

### 3.5.8 Rheolyddion Allanol

Mae Archwilio Cymru, fel Archwilwyr Allanol y Bartneriaeth, yn adolygu a gwneud sylwadau ar agweddau ariannol Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, statws ariannol, systemau Rheolaeth Ariannol Mewnol a safonau ymddygiad ariannol a thwyll a llygredd. Mae'r cynllun Archwilio Allanol yn cael ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu.

## 3.6 Materion llywodraethu i roi sylw iddynt / Cynllun Gweithredu

Mae'r Bartneriaeth o'r farn bod llywodraethu da yn arwain at well canlyniadau i'w rhanddeiliaid, ac felly bydd yn dal ati i ddatblygu ei fframwaith llywodraethu drwy ddatblygu polisïau, cofrestri a chynlluniau ychwanegol ac yn cynnal adolygiadau parhaus o'i dogfennau a'i strwythur llywodraethu presennol.

Mae gan y Bartneriaeth gynllun gwaith tair blynedd fydd yn ffurfio rhan o'r Cynllun Busnes. Mae hwn yn ymdrin â nifer o feysydd gwaith, gyda Llywodraethu yn un ohonynt.

Cynllun Gweithredu'r Bartneriaeth am y 12 mis nesaf:

1. Datblygu Cynllun Busnes tair blynedd y Bartneriaeth
2. Penodi Cynrychiolydd o Aelodau'r Cynllun i'r Cydbwyllgor Llywodraethu
3. Datblygu Polisi Ail-gydbwyso ac Addasu i’r Bartneriaeth
4. Llunio Matrics Cyfrifoldebau i Is-gronfeydd y Bartneriaeth
5. Adolygu'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau
6. Adolygiad blynyddol o bolisïau a chynlluniau'r Bartneriaeth

## 3.7 Casgliad

Dangoswyd lefel dda o sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu o fewn y Bartneriaeth gyda systemau digonol ac effeithiol yn eu lle. Bydd gweithredu'r camau gweithredu o'r cynllun gweithredu yn adran 3.5 yn cael ei fonitro a'i adolygu fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

O ran yr hinsawdd economaidd gyfredol mewn perthynas â COVID-19:

- Mae cyfarfodydd CBLl a GS wedi cael eu cynnal yn rhithwir
- Mae *Link Fund Solutions* a *Russell Investments* yn darparu diweddariadau rheolaidd am y farchnad mewn perthynas â buddsoddiadau is-gronfeydd y Bartneriaeth - rhennir y rhain gyda swyddogion y Gronfa Bensiwn ac aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu.
- Lansiwyd y pum is-gronfeydd Incwm Sefydlog ym mis Awst / Medi 2020
- Mae'r Bartneriaeth yn parhau i weithio yn unol â'r cynllun gwaith cymeradwy, yn blaenoriaethu'r dasg o ddatblygu a chymeradwyo'r polisïau a'r cynlluniau a ddisgrifir yn Adran 3.5 uchod ac, felly, yn datblygu'r fframwaith llywodraethu ymhellach.

## 4 DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys yr isod:

### 4.1 DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR (CIES)

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

| 2019/20 (£) | Disgrifiad | 2020/21 (£) | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| - | **Gwariant** | - | - |
| 56,138 | Costau staff | 59,455 | |
| 21,250 | Costau Awdurdod Cynnal | 13,556 | |
| 146,673 | Costau Ymgynghorwyr Allanol* | 556,177 | |
| 75,000 | Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Cynnal | 77,063 | |
| **299,062** | **Cyfanswm Gwariant Gweithredu** | **706,251** | |
| | | | |
| | **Incwm** | | |
| (299,062) | Taliadau a Ail-godir ar Awdurdod Cyfansoddol** | (706,251) | |
| **(299,062)** | **Cyfanswm Incwm Gweithredu** | **(706,251)** | |
| | | | |
| **0** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **0** | |

* Cynyddodd y gyllideb ar gyfer Costau Ymgynghorwyr Allanol yn 2020/21

** Ariennir y costau hyn gan bob un o'r wyth Cronfa CPLlC yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.

### 4.2 MANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos asedau a rhwymedigaethau'r Bartneriaeth fel ar 31 Mawrth 2021.

| 31 Mawrth 2020 (£) | Disgrifiad | 31 Mawrth 2021 (£) | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | **Asedau Cyfredol** | | |
| 367,489 | Dyledwyr Tymor Byr | 381,767 | 3 |
| **367,489** | **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | **381,767** | |
| | | | |
| | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | |
| (223,716) | Arian Parod a’r hyn sy'n gyfwerth | (188,185) | |
| (143,773) | Credydwyr Tymor Byr | (193,582) | 4 |
| **(367,489)** | **Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol** | **(381,767)** | |
| | | | |
| **0** | **Cyfanswm Net Asedau** | **0** | |

## 4.3 DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sydd gyfwerth gan y Bartneriaeth yn ystod y cyfnod adrodd.

| 2019/20 (£) | Disgrifiad | 2020/21 (£) | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | |
| 0 | Net (gwarged) / diffyg yn narpariaeth gwasanaethau | 0 | |
| | Addasiadau ar gyfer: | | |
| (228,978) | (Cynnydd) mewn masnach a dyledwyr eraill | (14,278) | |
| 132,841 | (Cynnydd) mewn masnach a chredydwyr eraill | 49,809 | |
| **(96,137)** | **Arian parod Net o weithgareddau gweithredu** | **35,531** | |
| | | | |
| | **Net (Cynnydd) / Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth** | | |
| (127,579) | Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 1 Ebrill | (223,716) | |
| (223,716) | Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 31 Mawrth | (188,185) | |
| **(96,137)** | **Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 31 Mawrth** | **35,531** | |

## 5 NODIADAU AR Y CYFRIFON

### 5.1 Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

**Cyffredinol**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 a'i sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2021. Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a ddefnyddir wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn yn cael eu hamlinellu isod. Mae'r polisïau hyn wedi cael eu defnyddio'n gyson ar gyfer yr holl gyfnodau a gyflwynwyd, oni nodir yn wahanol.

#### 5.1.1 Busnes Gweithredol

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

#### 5.1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi dan y cysyniad Croniadau o gyfrifyddu sydd angen adnabod incwm a gwariant yn y cyfnodau cyfrifyddu y maent yn ymwneud â hwy yn hytrach nag ar sail arian parod.

### 5.1.3 Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth

Nid yw'r Bartneriaeth ei hun yn gweithredu nac yn rheoli ei chyfrif banc unigol. Yn ei rôl fel Awdurdod Cynnal, Cyngor Sir Gâr sy'n gweinyddu'r holl drafodion arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ar ran y Bartneriaeth.

### 5.1.4 Darpariaethau, Asedau Amodol a Rhwymedigaethau

Nid yw'r Bartneriaeth wedi adnabod unrhyw ddarpariaethau, asedau amodol na rhwymedigaethau amodol yn y cyfrifon.

### 5.1.5 Treth ar Werth (TAW)

Dangosir trafodion net o Dreth ar Werth, rhoddir cyfrif am bob TAW gan Gyngor Sir Gâr.

### 5.1.6 Buddion Gweithwyr

Mae gweithwyr uniongyrchol sy'n cefnogi gweithgareddau'r Bartneriaeth yn cael eu cyflogi dan gytundeb gan Gyngor Sir Gâr, gyda chefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu gan Sir Gâr ar fethodoleg ail-godi tâl. Datgelir costau cydnabyddiaeth gweithwyr yn Natganiadau Ariannol Cyngor Sir Gâr.

## 5.2 Buddsoddiadau

Ni ddelir unrhyw fuddsoddiadau yn uniongyrchol gan y Bartneriaeth. Mae'r is-gronfeydd a agorwyd fel rhan o'r trefniant cyfuno yn dod o dan ddatganiadau ariannol y cronfeydd pensiwn priodol. Mae costau'r Gweithredwr a ffioedd eraill sy'n ymwneud â'r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhannu rhwng bob un o'r wyth Cronfa CPLlL yn seiliedig ar eu cyfran ganrannol unigol o asedau'r Bartneriaeth ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o'r Gwerth Net Asedau (GNA). Nid yw'r rhain yn drafodion arian parod.

.

## 5.3 Dyledwyr Tymor Byr

| 2019/20 (£) | Disgrifiad | 2020/21 (£) |
|---:|---|---:|
| 365,616 | Awdurdodau Cyfansoddol | 380,854 |
| 1,873 | Rhagdaliadau | 913 |
| **367,489** | **Cyfanswm Dyledwyr Tymor Byr** | **381,767** |

## 5.4 Credydwyr Tymor Byr

| 2019/20 (£) | Disgrifiad | 2020/21 (£) |
|---:|---|---:|
| 69,130 | Credydwyr Masnach | 103,500 |
| 74,643 | Croniadau | 90,082 |
| **143,773** | **Cyfanswm Credydwyr Tymor Byr** | **193,582** |

## 5.5 Costau Archwilio

Yn 2020/21, roedd y Bartneriaeth yn wynebu'r ffïoedd isod yn ymwneud â'r archwiliad a'r arolwg ariannol, a oedd yn daladwy i Archwilio Cymru.

| 2019/20 (£) | Disgrifiad | 2020/21 (£) |
|---|---|---|
| 8,558 | Ffioedd Archwilio | 2,590 |
| **8,558** | **Cyfanswm Ffioedd Archwilio Allanol** | **2,590** |

## 5.6 Trafodion Partïon Perthnasol

Mae gofyn i'r Bartneriaeth ddatgelu trafodion perthnasol rhwng partneriaid, cyrff, unigolion neu bartïon perthnasol, a allai o bosib ddylanwadu ar benderfyniadau'r CBLl neu gael eu dylanwadu gan y CBLl. Mae gan y Bartneriaeth drefniadau yn eu lle sy'n gofyn i aelodau a Swyddogion adnabod a datgelu trafodion partïon perthnasol. Datgelir ac asesir y buddiannau hyn ar ddechrau pob cyfarfod CBLl.

Bydd angen datgelu unrhyw drafodion rhwng y partïon a amlinellir uchod er mwyn galluogi i ddefnyddwyr y datganiadau Ariannol hyn asesu i ba raddau allai annibyniaeth y CBLl o bosib gael ei effeithio neu ei ddylanwadu gan allu parti arall i drafod gyda'r Pwyllgor.

Yn ystod 2020/21, fel Awdurdod Cynnal y Bartneriaeth, anfonodd Cyngor Sir Gâr anfoneb dyledwr at bob un o'r wyth cronfa bensiwn CPLlL er mwyn adennill costau rhedeg y Bartneriaeth, fel y nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr CIES). Mae'r tablau isod yn dangos cyfanswm gwerth y trafodion a godwyd yn ystod 2020/21 a'r balansau dyledwyr a oedd heb eu talu fel ar 31 Mawrth 2021.

| 2019/20 £ | Disgrifiad | 2020/21 £ |
|---|---|---|
| 52,383 | Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg | 88,281 |
| 32,373 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 88,281 |
| 32,383 | Cronfa Bensiwn Dyfed | 88,281 |
| 32,383 | Cronfa Bensiwn Gwynedd | 88,281 |
| 32,383 | Cronfa Bensiwn Powys | 88,281 |
| 32,383 | Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RhCT) | 88,281 |
| 32,383 | Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe | 88,281 |
| 52,383 | Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) | 88,281 |
| **299,062*** | **Cyfanswm Trafodion Partïon Perthnasol** | **706,251*** |

* Roundings

| 2019/20 £ | Disgrifiad | 2020/21 £ |
|---|---|---|
| 72,170 | Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg | 52,583 |
| 52,170 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 52,583 |
| 19,787 | Cronfa Bensiwn Dyfed | 0 |
| 52,170 | Cronfa Bensiwn Gwynedd | 52,583 |
| 32,383 | Cronfa Bensiwn Powys | 52,583 |
| 52,170 | Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RhCT) | 52,583 |
| 32,383 | Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe | 65,356 |
| 52,383 | Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) | 52,583 |
| **365,616** | **Trafodion Partïon Perthnasol heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn** | **380,854** |

Cododd Cyngor Sir Gâr dâl am weinyddiaeth a gwasanaethau cefnogol yn ystod 2020/21. Mae anfonebau hefyd wedi'u derbyn gan Gyngor Sir Gwynedd am wasanaethau a ddarparwyd ganddynt ar ffurf gwasanaethau cyfieithu. Mae'r tabl isod yn dangos gwerth y gwasanaethau hynny a'r balansau dyledwyr a oedd heb eu talu fel ar 31 Mawrth 2021.

| Trafodion Partïon Perthnasol - Credydwyr | Gwerth gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod 2020/21 £ | Balans heb ei dalu fel ar 31 Mawrth 2021 £ |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Gâr | 137,655 | 0 |
| Cyngor Gwynedd | 7,999 | 1,717 |
| **Cyfanswm** | **145,654** | **1,717** |

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Swyddog Monitro yn Uwch Swyddogion o fewn Cyngor Sir Gâr.

## 5.7 Addasiad Cyfnod Blaenorol

Ni wnaed unrhyw addasiadau Cyfnod Blaenorol yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

## 6 RHESTR TERMAU

Mae'r adran isod yn ceisio egluro ystyr rhai o'r gwahanol dermau technegol a ddefnyddir yn y Datganiadau.

***Croniadau***
Swm a ddangosir yn ein cyfrifon i dalu am incwm neu wariant ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu na dalwyd ar ddyddiad y fantolen yw croniadau.

***Archwiliad***
Arolwg annibynnol o'n gweithgareddau yw archwiliad.

***Balans***
Gwarged neu ddiffyg unrhyw gyfrif ar unrhyw adeg.

***Mantolen***
Dyma ddatganiad o'n hasedau, rhwymedigaethau a balansau eraill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

***Cyllideb***
Cynllun gwario yw cyllideb, fel arfer ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol.

***Credydwr***
Credydwr yw rhywun sydd ag arian yn ddyledus iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gafwyd.

***Asedau Cyfredol***
Dyma asedau tymor byr sydd ar gael i ni eu defnyddio yn y flwyddyn gyfrifyddu ddilynol.

***Rhwymedigaethau Cyfredol***
Dyma rwymedigaethau tymor byr sydd angen eu talu gennym yn y flwyddyn gyfrifyddu ddilynol.

***Dyledwr***
Dyledwr yw rhywun sydd mewn dyled ariannol i ni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

***Blwyddyn Ariannol***
Dyma'r cyfnod cyfrifyddu. Mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol i'r pwyllgor hwn.

***Gwariant Gros***
Cyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod Cynnal cyn ystyried unrhyw incwm a dderbyniwyd.

***Rhwymedigaeth***
Rhwymedigaeth yw swm sy'n ddyledus a thaladwy ar ryw adeg yn y dyfodol.

***Rhagdaliad***

Rhagdaliad yw taliad a wnaed o flaen llaw, taliad sy'n ymwneud â chyfrif cyfrifyddu yn y dyfodol.

***Darpariaeth***
Darpariaethau yw symiau a roddir o'r neilltu ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion sy'n debygol neu'n sicr o gael eu hachosi, ond mae'r symiau neu'r dyddiadau pan fyddant yn codi yn ansicr.

***Amrywiant***
Y gwahaniaeth rhwng gwir wariant a chyllideb - dangosir hyn mewn arian parod neu dermau canrannol.

***Archwilio Cymru***
Corff annibynnol a arweinir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am benodi archwilwyr allanol i awdurdodau lleol.